Cofnod o un o anturiaethau JOHN ELLIS WILLIAMS yn dod i olau dydd

# Pan oeddwn i'n Olygydd

BOB WYTHNOS cyn y Rhyfel Mawr Cynta, fe gyhoeddid *tri* phapur lleol ym Mlaenau Ffestiniog - *Y Glorian, Y Gloch* a'r *Rhedegydd.* Y Rhyfel Mawr Cynta a laddodd *Y Glorian*, ac fe ganodd *Y Gloch* 'i chnul olaf yn ystod y dirwasgiad a ddilynodd y rhyfel hwnnw.

Fe lwyddodd *Y Rhedegydd* i oroesi'r ddau ryfel. Ond rhyw grafu byw yr oedd yntau ar ôl yr Ail Ryfel Mawr, a bu farw ym mil naw pump un.

Perchennog a golygydd *Y Rhedegydd* oedd Mr Gwilym Maelor Davies, cyfaill personol i mi. Rhyw ddwy flynedd cyn i'r papur farw, fe ddaeth ataf i adrodd ei gŵyn. Mi gefais dipyn o fraw pan ddeudodd o fod *Y Rhedegydd* - a oedd y flwyddyn honno wedi cyrraedd oed yr addewid - yn marw ar ei draed.

Mi gefais fwy o fraw pan ddangosodd y ffigurau imi. Mae papur lleol o'r un faint â'r *Rhedegydd* yn defnyddio tua chwe thunnell o bapur argraffu *(newsprint)* mewn blwyddyn. Cyn y rhyfel, meddai Gwilym wrthyf, 'roedd y papur hwn yn costio trigain punt; 'roedd o'n awr yn costio pedwar cant a hanner o bunnau.

'Roedd tunnell o'r plwm a ddefnyddid i 'neud llythrennau wedi codi o ganpunt i ddau gant a hanner, a'r cyflogau o fil o bunnau'r flwyddyn i ddwy fil a hanner.

'Roedd *costau* cynhyrchu'r *Rhedegydd* wedi dyblu; ac yn waeth fyth, 'roedd yr *incwm* o'r papur wedi gostwng i'r hanner. Mewn ardal fel 'Stiniog, lle nad oedd yr un cwmni mawr o fasnachwyr yn hysbysebu eu nwyddau, 'roedd *Y Rhedegydd* yn dibynnu i raddau helaeth ar hysbysebion y Llywodraeth - y Gweinyddiaethau Bwyd, Llafur, Amaeth ac yn y blaen; a phan orfodwyd y Llywodraeth i gynilo ar y gwario, fe wnaed hynny ar draul y papurau bach lleol.

Hefyd, er mai dim ond dwy geiniog oedd pris *Y Rhedegydd* 'roedd y cylchrediad - a oedd yn tynnu at y pedair mil cyn y rhyfel - wedi gostwng i fil a hanner.

* * *

"YR UNIG ffordd i gadw'r papur yn fyw," meddai Gwilym wrthyf, "ydi codi'r cylchrediad. Hwyrach y gallai *golygydd newydd* 'neud hynny. 'Rydw i wedi dod yma i ofyn i *chi* fod yn olygydd. Cewch dragwyddol heol i newid yr hyn a fynnoch yn niwyg a chynnwys y papur."

Fedrwn i ddim gwrthod y sialens. Fe gyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o'r *Rhedegydd* - ar ei newydd wedd - ar ddydd Gwyl Dewi, mil naw pum deg.

'Doedd y 'newydd wedd' ddim yn plesio pawb, ond 'roedd o'n amlwg yn plesio'r mwyafrif, oherwydd yn fuan iawn fe *ddyblwyd* y cylchrediad, ac 'roeddan ni'n gwerthu dros dair mil o gopïau o'r *Rhedegydd* bob wythnos.

Prin yr oedd o'n talu'r ffordd hyd yn oed wedyn; ac yn Ebrill mil naw pump un, ar derfyn fy mlwyddyn gyntaf fel golygydd, bu'n rhaid codi pris y papur i dair ceiniog. Fe gollwyd ychydig gannoedd o ddarllenwyr, ond 'roedd y cylchrediad yn aros oddeutu'r tair mil.

Ac yna - ychydig fisoedd yn ddiweddarach - daeth codiad sylweddol arall yn y costau; ac i gyfarfod â'r gost ychwanegol, byddai'n rhaid codi pris *Y Rhedegydd* o dair ceiniog i rôt. Ond pe gwneid hynny, fe gollid rhai cannoedd yn y cylchrediad, a 'doedd dim sicrwydd y byddai codi'r pris yn codi'r incwm.

Yn y cyfyng gyngor hwn, fe gynigiodd perchnogion 'Y Cymro' brynu hawlfraint *Y Rhedegydd,* ac fe dderbyniodd Gwilym y cynnig. Cyhoeddwyd y rhifyn olaf o'r *Rhedegydd* ar y seithfed ar hugain o Fedi, mil naw pump un.

* * *

BU'R deunaw mis a gefais o olygu'r *Rhedegydd* yn brofiad diddorol dros ben. Yr unig adran o'r gwaith a dyfodd yn fwrn oedd y newyddion lleol. Yr un pethau oedd yn digwydd byth a hefyd ym mhob un o'r pentrefi o amgylch. 'Roeddwn i'n dyheu am gael newyddion a fyddai yn *newydd.*

Fy nghyfaill, Moi Plas, a ddarganfu'r feddyginiaeth. Aeth y ddau ohonom ati i ddyfeisio pentre newydd sbon o'r enw Llanfrangoch. Moi oedd piau'r enw.

"Mae pawb," meddai Moi, "yn gyfarwydd â'r Frân *Ddu*, ac 'roedd pawb ohonom un adeg yn credu yn y Frân *Wen.* Ond 'does neb wedi gweld Brân *Goch.*''

Er mwyn i'r newyddion o Lanfrangoch gymryd eu lle'n naturiol yn y papur, fe'u cyhoeddwyd nhw ymysg y newyddion o'r pentrefi eraill - Tanygrisiau, Maentwrog, Llanfrangoch, Manod, Trawsfynydd, ac yn y blaen.

Yr un *math* o newyddion a ddeuai o Lanfrangoch, ond fod rhyw dro chwithig iddyn nhw. Er enghraifft, y newydd cyntaf un a gyhoeddwyd o Lanfrangoch oedd: PRIODAS BRYDFERTH: Dydd Sadwrn diweddaf, yn Eglwys y Plwyf, gyda'r Parchedig Gabriel Edwards yn gweinyddu, priodwyd Mr Horace Jones, unig fab Mr a Mrs Joseph Jones, Llwyn y Drain, a Miss Emily Jenkins, ail ferch Mr a Mrs Jeremy Jenkins, Swallow Inn. Yr oedd y priodfab wedi ei wisgo mewn het feddal *fawn with brown ribbon,* coler galed wen *and striped blue-and-white tie, Navy blue suit with wide lapels and deep turn-ups, off-white chamois gloves, black patent-leather shoes, and a white gardenia button-hole.* Ar ei arddwrn chwith yr oedd *silver wristlet watch with luminous dial,* anrheg y briodferch. Treulir y mêlrawd yn Ynys Manaw. *Going-away dress* y priodfab oedd *russet-brown Harris tweed two-piece, with cap to match, Fair Isle pullover in brown and green and purple, patterned hose and brown calf brogues.* Eiddunwn bob hapusrwydd i'r pâr ifanc.

---

*O dud. 8*

Piti fod y noson wedi dod i ben.

* * *

MAE PAWB yn Yr Aelwyd heno. Mae hi'n noson bwysig.

Unwaith eto bydd Aelwyd Penfforddelen yn perfformio tair drama fer, fel y gwneir bob gaeaf, a thri o'r aelodau hŷn yn gyfrifol am baratoi un bob un. Caent y teitl "cynhyrchydd' am eu trafferth. Bydd pob aelod yn gwneud rhywbeth, rhai yn actio, rhai yn helpu y tu ôl i'r llenni - rhyw swydd o bwys gan bawb.

Ond mae heno yn noson bwysig. Mae Mr Jones, Angorfa, yn dod i roi *polish* ar bethau cyn inni fentro i'r Neuadd yr wythnos nesaf. Bu un criw yn dysgu "Yr Ymadawedig"; criw arall yn paratoi "Michael" a'r trydydd criw yn gwneud "Y Ciwrad yn y Pair", drama newydd gan D. Mathew Williams.

Athrawes ifanc sydd newydd ddod i'r ardal sydd yn cynhyrchu "Y Ciwrad", a hon yw'r gyntaf i gael sylw heno. Mae Mr Jones yn newid amryw o fanion yn y ddrama, fel y gwnâi bob amser. Ystwytho'r llefaru, bywiogi'r digwyddiadau, ail-gyfeirio symudiadau. Dyna a ddisgwyliem ganddo, oherwydd prentisiaid oedd pawb ohonom.

Ond dydi Miss ddim yn cael ei phlesio gan yr "ymyrraeth" ac wedi lleisio hynny unwaith neu ddwy. Ar ddiwedd y ddrama, mae hi'n gofyn: "Ydach chi'n gwybod rhywbeth am ddrama, Mr Jones?" Eiliadau hirion o ddistawrwydd poenus, a Glyn, sy'n chwarae Y Ciwrad, yn rhoi ei law o flaen ei geg ac yn dal ei wynt. Pawb yn disgwyl ...

"Mi awn ni dros yr olygfa lle mae Tomos Dafis yn dwad i mewn unwaith eto. Luned, rhed at y drws i alw'r ast ... Rwan 'ta Bob, llais reit dda i Tomos Dafis, 'Pam wyt ti'n galw'r ast?' Ffwrdd â chi."

Mae Miss yn siarad efo Mr Jones wrth fynd o'r Aelwyd, a'r ddau yn chwerthin.

* * *

DYWEDWYD lawer gwaith yn ddiweddar fod John Gwilym Jones yn "ddyn ardal". Oedd yn sicr. A loes i'w galon oedd gweld yr hen gymdeithas a gofiai gynt yn diflannu wrth i gynifer o'r plant fynd oddi cartre, a phobl newydd yn dod i fyw i'r pentre nes bod cymeriad y lle yn graddol newid.

Bellach ni fedrai gerdded i bob tŷ a gwybod (ac adnabod) pwy oedd yn byw yno. Tân ar ei groen oedd sylweddoli bod ieuenctid yr ardal mor anwybodus ynglyn â chymeriadau a hanes y fro.

Nid fod y Groeslon hanesyddol yn mynd â'i fryd yntau, chwaith, a dweud y gwir. 'Doedd hanes y Parch John Jones, Edern, a aned yn Nhyddyn Dafydd, ddim yn ei gyffroi yn arw, ac ychydig o ddiddordeb a gymerai yn Elis Wyn o Wyrfai, oedd a'i gartref yn Llwyn Gwalch.

Na, y bobl a adwaenai ef ei hun oedd ei ddiddordeb mawr - John Owen, Bala Villa; Robert Owen, Bryn Gwenallt; Leusa Hughes, Llain Ffynnon. Nhw oedd yn *fyw* iddo fo.

Lawer gwaith yr adroddodd yr hanes amdano'i hun yn mynd i weld Kate Pritchard ychydig flynyddoedd yn ôl, a hithau'n dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed. Roedd hi wedi colli ei golwg, ac yn byw efo'r ferch, oedd rhyw dair neu bedair blynedd yn hyn na John.

"Mam, mae John Gwilym wedi dwad i'ch gweld chi."

"Pwy?"

"John Gwilym, Angorfa." Saib.

"Be haru ti, dwad? Johnnie Rathbone wyt ti'n feddwl."

Ac yntau wrth ei fodd.

Efallai mai rhywbeth felly a barai iddo ddal mor benderfynol at yr hen enwau ar bobl. Os mai fel "Maggie Kate" yr adwaenid hi yn y dyddiau ifanc gynt, "Maggie Kate" oedd hi i John hyd y diwedd, er ei bod hi wedi mynd yn Margiad Williams ers llawer blwyddyn. Felly y cadwai ef ei Groeslon ei hun yn fyw.

Roedd teuluoedd y Groeslon honno - yr hen deuluoedd estynedig - yn cael lle arbennig iawn yn ei gategoriau, a gwyddai pawb fod ganddo gategoriau.

Pleser mawr oedd cael teithio Cymru a thros Glawdd Offa efo fo o dro i dro, a'r hyn a erys yn y cof ydi ei ddywediad wrth gyrraedd cyrion y pentre - "Groeslon bach! Nunlle gwell."

Ei ddymuniad oedd "cael fy nghofio amdanaf fy hun yn hytrach nag am ddim yr ydw i wedi ei wneud."

Felly yn wir y cofiwn ni yma amdano; y cymydog, yr aelod, y cyfaill, Johnnie Angorfa.